YSTADEGAU, DOGFENNU

# Adeiladu tai newydd: Gorffennaf i Medi 2025

Gwybodaeth am anheddau newydd a ddechreuwyd (lle bo'r gwaith adeiladu wedi dechrau) ac anheddau newydd a gwblhawyd (lle bo'r gwaith adeiladu wedi'i orffen a'r adeilad yn barod ar gyfer ei feddiannu), ar gyfer Gorffennaf i Fedi 2025.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 29 Ionawr 2026

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 29 Ionawr 2026

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru/adeiladu-tai-newydd-gorffennaf-i-medi-2025-html#195014)

**Pwyntiau allweddol** (https://www.llyw.cymru/adeiladu-tai-newydd-gorffennaf-i-medi-2025-html#195016)

**Nodiadau** (https://www.llyw.cymru/adeiladu-tai-newydd-gorffennaf-i-medi-2025-html#195021)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru/adeiladu-tai-newydd-gorffennaf-i-medi-2025-html#195023)


# Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth am adeiladu tai newydd yn seiliedig ar adroddiadau arolygwyr adeilad yr awdurdodau lleol a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC). Ni cheir yn y datganiad hwn wybodaeth gan PAIs eraill, sy’n debygol o arwain at dan gyfrif yng nghyfanswm yr anheddau newydd a ddechreuwyd ac a gwblhawyd (gweler y nodiadau). Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu chwarter 2 blwyddyn ariannol 2025 i 2026 (Gorffennaf i Fedi 2025).

# Pwyntiau allweddol

- Dechreuwyd 1,306 o anheddau newydd yn ystod Gorffennaf i Fedi 2025, 22% mwy na’r un chwarter yn 2024 (1,068).
- Cwblhawyd 1,046 o anheddau newydd yn ystod Gorffennaf i Fedi 2025, 11% mwy na’r un chwarter yn 2024 (944).
- Roedd mwy na hanner (59%) o anheddau newydd a gwblhawyd yn ystod Gorffennaf iFedi 2025 yn cynnwys tair ystafell wely neu fwy.
- Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025, roedd y rhan fwyaf o’r anheddau newydd a adeiladwyd yn perthyn i’r sector preifat (76%), gyda chyfran lai yn perthyn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (22%) ac awdurdodau lleol (3%) (dylid trin gwybodaeth deiliadaeth yn ofalus – gweler Nodiadau am fanylion).
- O'i gymharu â'r un chwarter yn 2024, cynyddodd cyfran y gwaith o gwblhau anheddau a gyfrifwyd gan y sector cymdeithasol o 15% i 24%.

## Ffigur 1: nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd ac a gwblhawyd, chwater 2 2016 i 2017 i chwater 2 2025 i 2026 [Nodyn 1] [Nodyn 2]




Disgrifiad o ffigur 1: siart llinell sy'n dangos y cafwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer y tai newydd a ddechreuwyd rhwng chwarter 2 2016 i 2017 a chwarter 2 2025 i 2026.

Ffynhonnell: arolygwyr adeiladu yr awdurdodau lleol a data'r NHBC

[Nodyn 1] ni chasglwyd data chwarterol ar gyfer 2020 i 2021 na 2021 i 2022 oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19).

[Nodyn 2] mae ffigurau amcangyfrifedig wedi'u cynnwys ar gyfer Gwynedd ar gyfer Chwarter 2 2025 to 2026.

# Nodiadau

Oherwydd talgrynnu, mae'n bosibl na fydd pob ffigur yn dod i 100%.

Mae'r data hwn yn seiliedig ar adroddiadau archwilwyr adeiladu awdurdodau lleol a'r NHBC sy'n arolygwr preifat cymeradwy. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth oddi wrth arolygwyr preifat cymeradwy eraill, sy'n debygol o arwain at dan gyfrif yng nghyfanswm yr anheddau newydd a ddechreuwyd ac a gwblhawyd.. Mae'n

anodd weithiau i swyddogion rheoli adeiladu a’r NHBC sy'n cofnodi'r data i nodi daliadaeth derfynol arfaethedig yr eiddo (sy’n sail ar gyfer y wybodaeth am ddeiliadaeth). Gall hyn arwain at dan gyfrif  tai newydd yn y sector cymdeithasol a gor-gyfrif ar gyfer y sector breifat. O fewn y sector gymdeithasol, gall hefyd arwain at dan gyfrif tai newydd gan awdurdodau lleol a gor-gyfrif tai landlordiaid cymdeithasol. Felly dylid trin y data daliadaeth yn ofalus.

Bydd amrywiadau chwarterol yn dylanwadu ar y dechreuadau a chwblhadau, gan gynnwys amseru dechrau a chwblhau ar safleoedd mawr mewn rhai awdurdodau a ffactorau tymhorol fel gwyliau a thywydd. Nid yw'r ystadegau hyn yn cael eu haddasu'n dymhorol.

Rydym hefyd yn cyhoeddi ystadegau ar wahân ar **ddarpariaeth tai fforddiadwy** (https://llyw.cymru/darpariaeth-tai-fforddiadwy). Mae'r ffigurau'n cwmpasu'r holl unedau tai fforddiadwy ychwanegol, p'un ai drwy adeiladu o'r newydd, prynu, caffael, prydlesu neu addasu anheddau presennol.

Ar hyn o bryd rydym yn asesu dichonoldeb defnyddio ffynonellau data gweinyddol amgen i ategu/wirio ansawdd yr ystadegau hyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad ar y gwaith hwn erbyn Mawrth 2026.

Cyhoeddir pwyntiau allweddol a data StatsCymru yn chwarterol a chyhoeddir adroddiad blynyddol. Mae’r data ar StatsCymru yn cynnwys data ar lefel awdurdodau lleol yn ogystal â nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd fesul math yr annedd a nifer yr ystafelloedd gwely.

## Manylion cyswllt

Tîm Tystiolaeth Cyflwr Tai
E-bost: **ystadegau.tai@llyw.cymru** (mailto:ystadegau.tai@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.